

# Cymeriadau Difyr



Llyfr / Agwedd:	<b>Y Ffair</b> <b>(Trafod arian)</b>
Adnoddau:	<ul style="list-style-type: none"><li>• Arian chwarae.</li><li>• Tagiau pris ar gyfer eitemau (yn dangos costau fel 10c, 20c, 50c, £1).</li><li>• Pysiau arian bach neu waledi i blant reoli eu darnau arian.</li><li>• Ychydig o fyrddau neu orsafoedd yn gweithredu fel stondinau.</li><li>• Posterï argraffadwy ar gyfer pob stondin, yn dangos beth sydd ar werth – gweler y ddogfen 'Y Ffair – posterï'.</li><li>• Bwyd tegan (cŵn poeth, diodydd, candi fflos) neu ddelweddau printiedig.</li><li>• Balwnau, teganau bach, sticeri - unrhyw beth i greu amrywiaeth.</li><li>• Ffedogau, hetiau, neu fathodynau ar gyfer stondinwyr i wneud iddo deimlo'n real.</li><li>• Basgedi siopa neu hambyrddau ar gyfer cwsmeriaid.</li><li>• Llyfrau nodiadau bach i ddeiliaid stondinau gofnodi trafodion.</li><li>• Cymhorthion gweledol yn dangos gwerthoedd darnau arian i helpu eu hadnabod.</li><li>• Taflenni cyfrifo syml (ar gyfer ychwanegu pryniannau a gweithio allan newid).</li><li>• Cardiau tasg gyda gwahanol heriau siopa.</li><li>• Llinellau rhif neu gant o sgwariau ar gyfer cyfrif arian.</li></ul> <p><b>Adnodd digidol:</b> Gweler y wefan <a href="https://cymeriadau-difyr-gemau.peniarth.cymru/">https://cymeriadau-difyr-gemau.peniarth.cymru/</a> Bydd y dysgwyr yn darllen y prisiau sy'n ymddangos ar y wefan, yna'n dewis y darnau o arian digidol sydd eu hangen, a'u llusgo i'r jar.</p>
Camau:	<p>Nod: Adnabod a defnyddio darnau arian i dalu am eitemau yn y ffair.</p> <p>Creu ffair fach yn yr ystafell ddosbarth neu ofod awyr agored gyda gwahanol 'stondinau' yn gwerthu eitemau fel cŵn poeth, diodydd, candi fflos, balŵns, a theganau bach. Mae gan bob eitem dag pris clir wedi'i arddangos gan ddefnyddio symiau syml (e.e.10c, 20c, 50c, £1). Rhowch arian ffug i blant.</p> <p>Rolau: Mae rhai plant yn gweithredu fel stondinwyr yn gwerthu eitemau. Mae eraill yn ymgymryd â rôl cwsmeriaid gyda swm penodol i'w wario.</p> <p><b>Cam 1</b> Mae'r plant yn dewis eitem ac yn talu amdano gan ddefnyddio darnau arian.</p> <p><b>Cam 2</b> Maen nhw'n cyfri'r swm cywir ac yn gwirio eu cyfanswm cyn trosglwyddo'r arian.</p> <p><b>Cam 3</b> Dod o hyd i'r darnau arian cywir.</p>



# Cymeriadau Difyr



## **Cam 4**

Heriwch y plant i ddod o hyd i wahanol ffyrdd o wneud y cyfanswm (e.e. talu 50c gan ddefnyddio dau ddarn arian 20c a darn arian 10c).

## **Cam 5**

Mae cwsmeriaid yn prynu dwy eitem neu fwy ac yn adio cyfanswm y gost.

## **Cam 6**

Anogwch nhw i wirio bod ganddyn nhw ddigon o arian cyn prynu.

## **Cam 7**

Mae rhai plant yn chwarae rhan stondinwyr a rhaid iddynt weithio allan a oes angen newid (Cam Cynnydd 2).

## **Cam 8**

Mae'r plant yn cymharu cost gwahanol eitemau ac yn trafod beth maen nhw'n gallu ei fforddio, e.e. 'Mae gen i £1—. Ddylwn i brynu ci poeth neu ddau ganddi fflos?'

## **Cam 9**


Gellir defnyddio'r adnodd digidol hwn i atgyfnerthu'r dysgu: <https://cymeriadau-difyr-gemau.peniarth.cymru/>

Cwestiynu:

- Allwch chi ddod o hyd i'r darnau arian cywir i dalu am eich eitem?
- Faint mae hyn yn ei gostio? Allwch chi gyfrif y darnau arian yn uchel?
- Allwch chi ddangos dwy ffordd wahanol i mi wneud 50c?
- Rydych chi wedi prynu ci poeth am 50c a diod am 30c - faint ydych chi wedi'i wario i gyd?
- Beth sy'n digwydd os nad oes gennych chi ddigon o arian i brynu rhywbeth?
- A oes ffordd arall o dalu £1 gan ddefnyddio darnau arian gwahanol?
- Fe wnaethoch chi dalu gyda darn £1, ond mae eich eitem yn costio 80c - faint o newid dylech chi ei gael yn ôl?
- Allwch chi helpu deiliad y stondin trwy weithio allan y newid ar gyfer eich ffrind?
- Os oes gennych chi £2, beth allech chi ei brynu a chael arian ar ôl o hyd?
- A fyddai'n well gennych chi brynu un eitem fawr neu ddwy eitem lai? Pam?
- Pa stondin sy'n gwerthu'r eitem rataf? Pa un sy'n gwerthu'r eitem ddrutaf?
- Os yw candi fflos yn costio 40c a balŵn yn costio 50c, pa un sy'n costio fwyaf?
- Ble rydyn ni'n defnyddio arian mewn bywyd bob dydd, ar wahân i'r ffair?
- Pam mae angen i ni wybod faint mae pethau'n ei gostio cyn i ni eu prynu?
- Beth fyddech chi'n ei wneud er mwyn arbed arian ar gyfer eitem fwy y tro nesaf?



# Cymeriadau Difyr



Beth nesaf?

Creu eu stondin eu hunain yn gwerthu nwyddau dychmygol.  
Gosod prisiau, dylunio bwydlenni/posteri/arwyddion, a phenderfynu  
ar gynigion arbennig. Mae hyn yn atgyfnerthu cysyniadau arian wrth  
gysylltu â llythrennedd a'r celfyddydau mynegiannol.

